# Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 19 Hydref 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Mynediad i Wybodaeth (Pobl sydd â nam ar eu golwg)

**C7 Janet Ryder:** Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i sicrhau bod y rhai sydd â nam ar eu golwg yn gallu cael mynediad llawn i wybodaeth sydd yn deillio o'r Cynulliad? (OAQ1453VB) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Polisi Cludiant ar y Rheilffyrdd (Diwydiant a Thwristiaeth)

**C8 Richard Edwards:** Pa gynnydd a wnaethpwyd gan y Prif Ysgrifennydd o ran sicrhau llais effeithiol i'r Cynulliad ym maes polisi cludiant ar y rheilffyrdd yng Nghymru i wneud Cymru yn fwy atyniadol i ddiwydiant a thwristiaeth? (OAQ1452VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn ganolog i gynigion y Llywodraeth ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd drwy'r rhwydwaith cyfan, gan gynnwys Cymru. Bydd yr Awdurdod, ynghyd â'r Rheoleiddiwr Rheilffyrdd, yn rheoleiddio'r diwydiant mewn modd clir, cydlynol ac atebol, gan sicrhau bod y rheilffyrdd wedi'u hintegreiddio'n iawn â dulliau eraill o drafnidiaeth. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cytuno y bydd un aelod o Gymru ar yr Awdurdod a byddant yn ymgynghori â mi ynghylch y penodiad hwnnw.

Bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ymgynghori â'r Cynulliad ar drafodaethau masnachfraint yn y dyfodol ac ar bob mater arall sydd yn effeithio ar Gymru, ac maent yn awyddus i gael ein sylwadau. Bwriadwn yn bendant ddarparu tystiolaeth gref i'r Awdurdod i gefnogi'n cynigion am welliannau i wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, gan gadw mewn cof y potensial i gyfrannu at ddatblygu twristiaeth a diwydiant.

Yr ydym eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol, Railtrack, cwmnïau trenau a grwpiau eraill sydd â diddordeb er mwyn pennu eu hanghenion a llunio strategaeth fanwl i gefnogi'n hachos gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.

### Diffyg yn y Gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Ysbytai)

**C9 Nick Bourne:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cynnig i ddelio â'r bygythiad i wasanaethau ysbytai o ganlyniad i'r diffyg yn y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (OAQ1457VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r bygythiad i'r NHS yng Nghymru yn codi o ddiffyg systemau rheoli strategol a'r strwythurau rhanedig a thameidiog a etifeddwyd gennym ddwy flynedd yn ôl. Er iddo gymryd camau breision ymlaen, nid yw'r NHS yng Nghymru eto mewn cyflwr addas i fanteisio'n llawn ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd y llynedd ac eleni. Mae'r £1 biliwn ychwanegol a neilltuwyd gennyf i ar gyfer yr NHS wedi darparu ar gyfer twf ariannol o 7.1 y cant eleni a 6.4 y cant a 5.8 y cant dros y ddwy flynedd nesaf. Mae pob awdurdod iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru yn gweithio'n galed bellach i adfer cydbwysedd ariannol a dileu diffygion tra'n sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel.

### Blwyddyn Gyntaf Amcan 1 (Cyllid Cyfatebol)

**C10 Alun Cairns:** Faint o gyllid cyfatebol fyddai ei angen ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen Amcan 1 er mwyn i Gymru gael y budd mwyaf posibl ohoni? (OAQ1451VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Rhoddir amcangyfrif o'r lefel o gyllid cyfatebol y byddai ei angen yn y flwyddyn gyntaf yn y tablau ariannol a roddwyd gyda'r ddogfen raglennu sengl a drafodwyd heddiw gan y Cynulliad. Mater i'r Comisiwn Ewropeaidd fydd cytuno ar y rhagamcanion ariannol maes o law.

**Bwlian yn y Gweithle (Cod Ymarfer y Cynulliad)**

**C11 Jenny Randerson:** A oes cod ymarfer ar waith ar gyfer gweision sifil y Cynulliad sydd yn mynd i'r afael â bwlian yn y gweithle? (OAQ1479VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Oes. Rhoddir cyngor ac arweiniad ar fwlio yn Llawlyfr y Cynulliad ar Gyfle Cyfartal, y rhoddwyd copi ohono i bob aelod o'r staff.

**Datblygu Ffermydd Gwynt (Ymchwiliadau Cyhoeddus)**

**C12 Mick Bates:** Sawl ymchwiliad cyhoeddus sydd wedi'i gynnal ynghylch datblygu ffermydd gwynt a beth yw cyfanswm y gost o'u cynnal? (OAQ1482VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cynhaliwyd pum ymchwiliad cyhoeddus lleol i ddatblygiadau ffermydd gwynt arfaethedig. Cynhaliwyd y rhain yn achos y ceisiadau a alwyd i mewn ar gyfer y datblygiad gwreiddiol ym Mynydd y Cemaes, Sir Drefaldwyn, ym mis Ebrill 1991, ac estyniad arfaethedig i'r safle hwnnw ym mis Gorffennaf 1998. Fe'u cynhaliwyd hefyd yn achos yr apeliadau dros ddatblygiad ym Mhenrhys, Ystrad Rhondda, ym mis Rhagfyr 1992; ar Fynydd Parys, Môn ym mis Medi 1993 ac yn Nhrysglwyn Fawr, Môn ym mis Hydref 1993. Ni chasglwyd gwybodaeth am gostau ymchwiliadau unigol.

**Marchnad Allforio Cig Eidion (Economi Cymru)**

**C13 David Davies:** Pa asesiad y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'i wneud o'r manteision a ddaw i economi Cymru yn sgîl marchnad allforio cig eidion i Ewrop? (OAQ1464VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn 1995, y flwyddyn cyn yr argyfwng BSE, allforiwyd 274,000 tunnell o gig eidion o'r Deyrnas Unedig i farchnadoedd Ewropeaidd gyda gwerth o £520 miliwn i'r DU. Nid oes ffigurau ar allforion o Gymru'n unig, ond mae buches fagu Cymru yn cyfrif am ryw 12 y cant o gyfanswm y DU.

Mae arnom eisiau adfer y lefel honno o allforio a gwella cyfran Cymru o'r farchnad cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Ni fydd y cynllun allforio ar sail dyddiad, fel y mae wedi'i ragnodi ar hyn o bryd, yn caniatáu i hynny ddigwydd ond y mae'n fan cychwyn ac mae allforion cig eidion eisoes wedi ailddechrau. Gydag amser, gobeithiwn a disgwyliwn ehangu'r cynllun fel bod cyfran fwy o gig eidion Cymru'n gymwys ar gyfer y farchnad allforio.

**Cyflogi Heddweision yn y Cynulliad**

**C14 Kirsty Williams:** Beth yw'r rhesymau dros yr angen i gyflogi heddweision yn y Cynulliad a hynny ar gost flynyddol, yn ôl amcangyfrif, o tua £200,000? (OAQ1478VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni allaf roi sylwadau ar ffigurau gan nad oes cytundeb eto ar y lefel o gymorth gan yr heddlu a'r costau cysylltiedig. Mae gan y Cynulliad ddyletswydd gofal i gynnal diogelwch ei Aelodau, ei staff, a phawb sydd yn ymweld â'i adeiladau. Mae'r tîm heddlu ymroddedig yn helpu i ddarparu gwasanaeth diogelwch effeithiol ar gyfer prif adeilad cyhoeddus y Cynulliad. Mae'r heddweision yn gweithredu fel rhwystr parhaus i droseddau fel dwyn neu fandaliaeth ac mae eu presenoldeb yn yr adeilad yn golygu eu bod ar gael yn syth petai digwyddiad yn galw am ymyriad gan yr heddlu. Mae'r modd y gweithredir yn hyn o beth yn unol â'r arfer yn Senedd yr Alban ac yn debyg i'r trefniadau ym Mhalas San Steffan.

**Dadl yn Nhŷ'r Cyffredin (Deddfwriaeth y Cynulliad)**

**C15 David Lloyd:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i gynnal trafodaethau gyda Phwyllgor Gweithdrefn Ty'r Cyffredin a/neu Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ategu'r ddadl yn Nhy'r Cyffredin ar 21 Hydref, gan gynnwys y weithdrefn gyflymu ar gyfer deddfwriaeth y Cynulliad? (OAQ1480VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Materion i'r Senedd a'r Gweinidogion yw eu casgliadau a'u barn ar yr argymhellion a wnaethpwyd yn ymchwiliad y Pwyllgor Gweithdrefn i ganlyniadau gweithdrefnol datganoli i Dy'r Cyffredin. Mae'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol, boed yn ymwneud â Chymru a Lloegr neu â Chymru yn unig, yn tanlinellu pwysigrwydd deialog barhaus rhwng y Cynulliad, San Steffan a Whitehall yn ysbryd y memorandwm dealltwriaeth.

**Cynllun Cymorth Prosesu Lloi (Cyfraniad y Comisiwn Ewropeaidd)**

**C16 Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw drafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch dychwelyd cyfraniad y Comisiwn Ewropeaidd at y cynllun cymorth prosesu lloi o gyllideb y Trysorlys i gyllideb y Cynulliad? (OAQ1475VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gweithredwyd y cynllun cymorth prosesu lloi, ledled y DU, gan y Bwrdd Ymyrraeth. Talwyd cost y cynllun yn wreiddiol gan y Trysorlys, a gafodd ad-daliad maes o law gan y Comisiwn Ewropeaidd. Nid oedd gan y Cynulliad unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ariannu'r cynllun ac felly ni all ddisgwyl cyfraniad o gyllideb y Trysorlys.

**Cymru yn Ewrop (Dylanwad a Delwedd)**

**C17 John Griffiths:** Pa strategaeth y bydd y Prif Ysgrifennydd yn ei dilyn er mwyn ychwanegu at ddylanwad a delwedd Cymru yn Ewrop? (OAQ1476JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Trafododd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd gynrychiolaeth y Cynulliad yn Ewrop yn ei gyfarfod ddydd Iau 14 Hydref. Mae'n debygol y bydd y Cynulliad yn sefydlu ei gynrychiolaeth ei hun ym Mrwsel. Bydd hyn yn rhoi mynediad uniongyrchol inni i Gyngor y Gweinidogion drwy Gynrychiolydd Parhaol y Deyrnas Unedig tra'n gweithio mewn modd integredig gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn ddylanwadu ar bob cam o bolisi Ewropeaidd.

**Y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (Trosglwyddo Rheolaeth Weinyddol)**

**C18 Elin Jones:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi derbyn unrhyw sylwadau gan gyrff neu unigolion yng Nghymru ynglŷn â throsglwyddo rheolaeth weinyddol ac ariannol y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd o'r Adran Addysg a Chyflogaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ14783VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn ystod y trafodaethau ynglŷn â chynllunio rhaglenni'r cronfeydd strwythurol newydd mae nifer o unigolion wedi codi'r cwestiwn ynghylch pa adran o'r Llywodraeth fydd yn gweinyddu'r gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd yn ystod cyfnod nesaf y rhaglen a fydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf. Mae'r trafodaethau ar y mater hwn rhwng fy swyddogion i a swyddogion yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn parhau.

**Deddfu Sylfaenol Cyflym yn San Steffan (Cais y Cynulliad)**

**C19 Cynog Dafis:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac eraill ynglŷn â chreu proses o ddeddfu sylfaenol cyflym yn San Steffan ar gais y Cynulliad? (0AQ1471VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae gweithdrefnau'r Senedd ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn fater i'r ddau Dŷ ac nid i Lywodraeth y DU nac i mi. Yn ddiweddar cwblhaodd Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar

Weithdrefnau ei ymchwiliad i'r canlyniadau trefniadol sydd yn deillio o ddatganoli, ac argymhellodd efallai y byddai'n well ystyried Mesurau sydd yn ymwneud â Chymru'n unig mewn pwyllgor ailddarllen sydd yn cynnwys aelodau o Gymru yn unig. Argymhellodd hefyd na ddylai Llywodraeth y DU wrthwynebu yn awtomatig Fesurau Aelodau preifat sydd yn cyflwyno deddfwriaeth a gefnogir gan y Cynulliad.

Bydd y Senedd yn parhau i wneud deddfwriaeth sylfaenol sydd yn cynnwys Cymru, a bydd y Llywodraeth yn ystyried safbwyntiau'r Cynulliad wrth gyflwyno Mesurau. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth, a drafodwyd gennym yn gynharach y mis hwn, yn datgan yn eglur ei bod yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, o dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ymgynghori â'r Cynulliad yn flynyddol ar raglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth.

**Adroddiad yr Archwilydd Dosbarth (Cyngor Bro Morgannwg)**

**C20 Owen John Thomas:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi gweld copi o adroddiad yr Archwilydd Dosbarth dyddiedig Medi 1999 ynglyn â Chyngor Bro Morgannwg, ac a fydd yn gwneud datganiad ar ei gynnwys? (OAQ1454VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf wedi gweld copi o adroddiad buddiant cyhoeddus yr Archwilydd Dosbarth ar y modd y bu i Gyngor Bro Morgannwg ymdrin â datblygiad Ty Dyffryn, a gyhoeddwyd ar 2 Medi. Er fy mod yn bryderus iawn ynghylch canfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad, mater i'r Cyngor ei hun yw ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad ac yr wyf yn annog y dylid gwneud hyn yn gyflym. Ar hyn o bryd ni fyddai'n iawn gwneud sylwadau ar fanylion yr adroddiad gan fy mod yn deall bod yr Archwilydd Dosbarth yn dal i ymchwilio i'r mater a bod posibilrwydd o achos cyfreithiol o hyd.

**Masnachu Cyffuriau yng Nghymru**

**C21 Jocelyn Davies:** Pa bwerau sydd gan y Cynulliad i gymryd camau yn erbyn masnachu cyffuriau yng Nghymru? (OAQ1458VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymryd rhan mewn sawl cynllun i ymladd yn erbyn camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru. Nid oes gennym unrhyw bwerau i weithredu yn erbyn masnachu cyffuriau gan mai mater i'r Swyddfa Gartref ac asiantaethau gweithredu'r gyfraith yw hyn. Dylai'r Cynulliad gydweithredu'n llawn â'r cynlluniau i ymladd yn erbyn masnachu cyffuriau, yn yr un modd ag y bydd yr asiantaethau hyn yn gefnogol i'n cynlluniau ni i ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau ac allgáu cymdeithasol.

**Dyrannu Cyllid Amcan 1 (Awdurdodau Lleol)**

**C22 Geraint Davies:** A fydd yr awdurdodau lleol sydd heb gronfeydd wrth gefn, neu gronfeydd isel, ar eu colled wrth ddyrannu cyllid Amcan 1? (OAQ1484VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dim ond un ffactor ymhlith llawer yw lefel y cronfeydd wrth gefn. Caiff arian Amcan 1 ei ddosrannu ar sail prosiectau, neu becynnau o brosiectau, o ansawdd da, a gyflwynir i bwyllgor monitro'r rhaglen. Disgwyliaf i nifer o'r rhain gael eu gweithredu ar lefel yr awdurdodau lleol. Yr wyf yn awyddus i weld adnoddau'n cael eu dyrannu i ardaloedd lle mae eu hangen a lle mae'r gallu i'w defnyddio'n effeithiol, fel y dangosir gan ansawdd y prosiectau y maent yn eu cynnig.